Cronfa Addysg Thomas Howell ar gyfer Gogledd Cymru

Canllaw ar gyfer Gwerthuso

Gwobrwywyd grant i'ch mudiad chi gan Gronfa Addysg Thomas Howell ar gyfer Gogledd Cymru yn ystod eleni. Y mae'n un o amodau'r grant fod adroddiad yn cael ei gyflwyno o fewn deuddeg mis ar ôl i chi dderbyn y wobr. Mae'n bwysig ar gyfer dibenion yr archwiliad ac ar gyfer y Panel Gwneud Grantiau fod effaith ei nawdd yn cael ei werthuso.

Mae'n bosib y bydd gofyn i aelod o'r Panel Gwneud Grantiau ymweld â'ch mudiad neu sefydliad addysg neu i gyflwyniad gwerthuso byr gael ei wneud ger bron y Panel ar gyfer grantiau sydd dros £10,000.

Darparwch yr wybodaeth ganlynol ar gyfer gwobr unigol neu adroddiad terfynol ar gyfer gwobr aml-flwyddyn. Dylai eich adroddiad fod rhwng dwy a phedair tudalen o hyd ac yn ogystal â'r wybodaeth isod fe'ch gwahoddir i gynnwys unrhyw ddeunydd perthnasol neu atodiadau.

1. Manylion penodol ariannol ynghylch sut cafodd y grant ei wario, gyda chopïau o dderbynebau ar gyfer eitemau dros £250.

2. Cadarnhad fod yr arian a roddwyd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion a ddynodwyd yn y cais, neu fanylion a rhesymau os oedd yna wahaniaethau.

3. Eich gwerthusiad o impact y grant ar blant/myfyrwyr perthnasol.
   - Pa raglenni, gwasanaethau, cyfleusterau etc a ddarparwyd gennych o ganlyniad i'r grant?
   - Beth oedd y manteision, newidiadau neu effeithiau eraill a gafwyd yn sgil y project?
   - Beth yw effeithiau ehangach neu hirdymor y canlyniadau hyn ar y mudiad a'i fuddiolwyr?

4. Unrhyw dystiolaeth o impact y grant (e.e. plant, myfyrwyr, athrawon).

5. Os oedd canlyniadau ac impact y project yn wahanol i'r hyn yr oeddech wedi mynd ati i'w gyflawni, sut a pham.

6. Unrhyw sylwadau y gallai fod gennych am drefnau'r Ymddiriedolaeth wrth dderbyn ceisiadau a gwneud grantiau i'ch mudiad.

7. Sylwadau ynghylch a wnaeth sicrhau grant gan yr Ymddiriedolaeth eich galluogi i wneud cais llwyddiannus am arian ychwanegol o ffynonellau eraill.

Os yw'r grant yn wobr aml-flwyddyn a wnewch chi ddarparu'r wybodaeth adroddiad dros dro canlynol yn ogystal ag ateb 1 a 2 uchod, os gwelwch yn dda.

1. Amcanion cyffredinol y project a'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r nodau/amcanion hyn.

2. Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r project yn seiliedig ar eich gwerthusiad o'r llynedd.

3. Targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

4. Manylion y ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ar gyfer cefnogaeth ariannol y project ar gyfer y dyfodol pan ddaw unrhyw arian THEFNW i ben.